# GYRFAOEDD NYRSIO & BYDWREIGIAETH

YNG NGHYMRU



GIG CYMRU NHS WALES

hyfforddigweithiobyw.cymru
#hyfforddigweithiobyw

# Yng Nghymru, nid gyrfa yn unig rydyn ni’n ei gynnig, rydyn ni’n cynnig ffordd o fyw.



Dinbych-y-pysgod, De-orllewin Cymru

# Cydbwysedd



## Dewch o hyd i'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith rydych wedi bod yn chwilio amdano fel nyrs neu fydwraig yng Nghymru.

**P'un a ydych newydd gymhwyso neu wedi bod yn gweithio ers blynyddoedd, gall symud i Gymru eich helpu i gael mwy o'ch gyrfa a'ch bywyd.**

Newydd gymhwyso? Yng Nghymru, gallwch ddod o hyd i gyfleoedd gyrfa gyffrous ym mhob maes ymarfer a dysgu yn y gwaith, mewn amgylcheddau cefnogol iawn, gyda datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn eich helpu i fodloni eich gofynion ail-ddilysu.

Eisoes yn gymwys? Byddwn yn eich cefnogi i ennill y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau, i ymarfer ar lefel arbenigol a datblygu eich gyrfa. Byddwch yn cael y cyfle i lunio eich gyrfa, wrth fwynhau amodau gwaith ffafriol mewn lleoliadau cyfeillgar, mewn gwlad sydd wir yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnewch.



**O ran eich gyrfa, gall dod o hyd i gyflawniad ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith fod yn hanfodol er mwyn rhoi'r egni a'r cymhelliant sydd eu hangen arnoch i herio'ch hun ac agor drysau newydd.**

Wedi'i bendithio ag ymdeimlad cyfeillgar o gymuned, tai fforddiadwy, amgylchoedd trawiadol a'r potensial ar gyfer llawer o ymlacio ac antur, mae Cymru'n cynnig cyfle i chi ddewis y ffordd o fyw rydych chi ei heisiau a darganfod cydbwysedd anhygoel rhwng bywyd a gwaith – beth bynnag fo'ch cyfrifoldebau personol a chyfnod eich bywyd.

Drwy hyfforddi yng Nghymru, gallwch ddatgloi llawer o gyfleoedd gyrfa cyffrous gyda chefnogaeth gan gydweithwyr profiadol ar bob cam o'ch datblygiad.

Drwy ymarfer yng Nghymru gallwch fanteisio ar ein cyfleusterau addysg a hyfforddiant rhagorol.

# Hyfforddi yng Nghymru



Bryony, Bydwraig Gymunedol

# Cyfleoedd



> "Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda thîm deinamig a gwneud newidiadau cadarnhaol ym mywydau cleifion."
>
> **James Robinson, Arweinydd Tîm Cymunedol**

## Oes o gyfleoedd dysgu

Mae'r GIG yng Nghymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus ar draws ystod eang o lwybrau, sy'n cwmpasu popeth o hyfforddiant yn y gweithle i gyrsiau ôl-gofrestru arbenigol. Mae Cymru yn fan lle nad yw'r dysgu byth yn dod i ben, lle mae sgiliau a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n agored, arloesedd yn cael ei groesawu a bod eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Gall bydwragedd sydd newydd gymhwyso elwa o'n rhaglen tiwtoriaeth Cymru gyfan. Bydd hyn yn eich helpu i atgyfnerthu eich profiad ym mhob maes ymarfer. Cefnogir bydwragedd drwy gydol eu gyrfa gan y goruchwyliwr clinigol ar gyfer fframwaith bydwragedd. Mae hyn yn rhoi goruchwyliwr enwebedig i bob bydwraig, goruchwyliaeth grŵp a chefnogaeth un i un ar gyfer cyfleoedd myfyrio a dysgu ar y cyd.

## Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru

Yng Nghymru, rydym wedi cynnal bwrsariaeth y GIG ar gyfer myfyrwyr nyrsio, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae'r pecyn cymorth hwn yn anfon neges glir am faint rydym yn gwerthfawrogi ein gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.

## Addysg uwch sy'n ticio'r holl flychau

Mae sawl sefydliad addysg uwch yng Nghymru wedi'u cymeradwyo i ddarparu hyfforddiant cyn ac ar ôl cofrestru. Drwy ddewis hyfforddi yng Nghymru, gallwch gael mynediad i bob maes nyrsio a bydwreigiaeth - mae'r dewisiadau'n wirioneddol ysbrydoledig.

Fel nyrs sydd newydd gymhwyso gallwch ddewis y lleoliad clinigol yr hoffech ddechrau eich gyrfa nyrsio ynddo – gyda gwasanaethau trydyddol arbenigol fel llosgiadau, llawdriniaeth ar y galon, timau cymunedol neu practisau meddyg teulu. Fel bydwraig sydd newydd gymhwyso yng Nghymru, gallwch weithio ar draws sbectrwm llawn amgylcheddau geni – popeth o wasanaethau meddygaeth ffetws arbenigol i ganolfannau geni annibynnol a gwasanaethau integredig – gan roi profiad cymunedol ac ysbyty i chi.

Rydym yn croesawu amrywiaeth, felly ble bynnag yr ydych yn astudio, byddwch yn darganfod amgylchedd dysgu sy'n fywiog, yn gyfeillgar ac yn gynhwysol.

## Hyfforddiant i raddedigion y gallwch ddibynnu arno

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i addysgu ei holl nyrsys a bydwragedd i lefel graddedigion. Felly nid oes unman yn cymryd eich datblygiad proffesiynol mor ddifrifol â ni. Mae ein hyfforddiant o ansawdd uchel yn cael ei gydnabod ledled y byd.

## Llwybr clir i ymarfer uwch

Mae gan Gymru fframwaith gyrfa i roi llwybr clir i chi i'r cymwysterau ôl-raddedig sydd eu hangen i ddatblygu eich gyrfa. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bedwar maes craidd: (1) ymarfer clinigol (2) addysg (3) arweinyddiaeth a rheoli (4) ymchwil ac arloesi.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Bydwragedd sy'n cefnogi rhaglen arweinyddiaeth flynyddol, fel y gallwch ddatblygu eich sgiliau arwain a'u rhoi ar waith.

## Cyfleusterau addysg a hyfforddiant rhagorol

Bydd gennych fynediad at amrywiaeth o gyfleusterau cynadledda a llyfrgell ardderchog a reolir gan dîm ymroddedig o staff profiadol.

## Datblygu eich gyrfa gydag ymchwil blaengar

Rydym yn ariannu'r Cydweithrediad Adeiladu Capasiti Ymchwil (RCBC), i ddatblygu gallu ymchwil o fewn y gweithlu nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol.

Mae'r fenter yn rhoi cyfle i ymchwilwyr newydd a phrofiadol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, gael cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil sydd wedi'u cynllunio i lunio dyfodol y proffesiwn.

Yng Nghymru, cewch gyfle i barhau â thraddodiadau'r GIG yng ngwlad ei enedigaeth, a dylanwadu ar ddyfodol gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth.

# Gweithio yng Nghymru



Ashly, Nyrs Staff

# Cymuned



**"Rydw i wedi gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae wastad wedi bod yr ymdeimlad unigryw yma o gymuned a pherthyn."**

**Olwen Morgan, Pennaeth Nyrsio**

## Cynnal y gorffennol a llunio'r dyfodol

Pan sefydlodd Aneurin Bevan y GIG yn 1948, gwnaeth hynny ar egwyddorion mynediad cyfartal a'r gwasanaeth yn seiliedig ar angen, nid ar y gallu i dalu.

Drwy ddatblygu eich gyrfa yng Nghymru, byddwch yn gallu parhau â'r traddodiadau hyn a helpu i lunio dyfodol eich proffesiwn.

Mae Cymru wedi lansio ei gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer y dyfodol - Gofal Mamolaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cefnogi bydwragedd i ddarparu gofal o safon a phrofiadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, wrth weithio ac yn hyfforddi'n amlbroffesiynol i ddatblygu gwasanaethau diogel ac effeithiol.

## Elwa o lefelau staffio gwell

Cymru yw'r genedl gyntaf yn Ewrop i gyflwyno deddfwriaeth sy'n amddiffyn lefelau staffio nyrsio - gan sicrhau y bydd nyrsys yn cael yr amser i ofalu'n sensitif i gleifion.

Mae disgwyl i bob uned famolaeth yng Nghymru fod yn cydymffurfio â 'Birth-rate Plus' - gan sicrhau bod y nifer gywir o fydwragedd ar gael i'r menywod sy'n derbyn gofal.

## Un yrfa, llawer o lwybrau

Mae gyrfa yng Nghymru yn llawn posibiliadau. Gall bydwragedd symud ymlaen i fod yn fydwragedd arbenigol, ymgynghorol a phenaethiaid rolau bydwreigiaeth. Gall nyrsys symud ymlaen i nyrsys clinigol, ymarferydd nyrsio uwch a rolau nyrsio ymgynghorol. Gallwch hefyd ddilyn llwybrau arweinyddiaeth, o rolau arwain ward a thîm i swyddi uwch.

## Gweithio hyblyg i weddu i'ch teulu

Drwy weithio yng Nghymru, gallwch fanteisio ar ystod o drefniadau gweithio arloesol sydd wedi'u cynllunio i helpu i gyd-fynd â'ch gwaith o amgylch eich bywyd.

Mae'r rhain yn cynnwys oriau gwaith hyblyg, cynlluniau talebau gofal plant, mentrau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chyfleusterau meithrin ar y safle .

## Cael eich cydnabod am waith gwych

Mae pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cynnal gwobrau cyflawniad staff i gydnabod staff sy'n gwneud cyfraniadau eithriadol i redeg a gwella gwasanaethau. Mae'r Gynhadledd Prif Swyddog Nyrsio blynyddol, Gwobrau GIG Cymru a Nyrs y Flwyddyn Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru a Gwobrau Bydwraig y Flwyddyn Coleg Brenhinol y Bydwragedd, i gyd yn cynnig cyfleoedd i chi gael eich cydnabod am eich ymroddiad a'ch arloesedd.



Arwel, Nyrs Staff

## Cael cefnogaeth pan fyddwch yn symud

Os ydych chi am ddod i Gymru i weithio o wlad wahanol, gall ein byrddau iechyd a'n hymddiriedolaethau gynnig amrywiaeth o becynnau adleoli i chi i'ch helpu chi a'ch teulu i ymgartrefu mor esmwyth â phosib.

## Help i ddychwelyd i ymarfer

Rydym yn croesawu nyrsys, ymwelwyr iechyd a bydwragedd sydd am ddod yn ôl i'r proffesiwn.

Mae bwrsariaeth o £1,000 ar gael i nyrsys, ymwelwyr iechyd a nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol sy'n hyfforddi yng Nghymru. Mae bwrsariaeth o £1,500 hefyd ar gael i fydwragedd sy'n dilyn cwrs dychwelyd i ymarfer yng Nghymru.

Gan elwa o ymdeimlad cryf o gymuned, tai fforddiadwy, ysgolion gwych a llawer o ffyrdd i ymlacio a chael hwyl, mae Cymru'n lle gwych i weithio a byw naill ai ar eich pen eich hun, neu gyda'ch teulu.

# Byw yng Nghymru



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, De Cymru



















# Gwlad o wrthgyferbyniadau cymhellol



Traeth Harlech, Eryri

**Yn gryno ond amrywiol, mae Cymru yn wlad lle mae cymunedau prydferth, arfordiroedd heb eu difetha, cefn gwlad drawiadol a dinasoedd bywiog yn cyfuno i gynnig yr holl ymlacio ac antur deuluol sydd ei hangen arnoch.**

(TUDALEN CHWITH) O'R CHWITH I'R DDE: Maenorbŷr Dinbych-y-pysgod, Bae Caerdydd Mermaid Quay, Canolfan Mileniwm Cymru, Gŵyl Fwyd Merthyr Mawr, Lido Cenedlaethol Cymru ym Mhontypridd, Arforgampau yn Sir Benfro, Tref Llanymddyfri, Gorsaf Fwydo Barcud Coch ym Mannau Brycheiniog, Canol Dinas Caerdydd.

## Byw trefol

Yn dod i'r amlwg yn gyflym fel un o brifddinasoedd mwyaf egnïol Ewrop, mae Caerdydd yn cynnig siopa o'r radd flaenaf, prydau allan da, parciau hardd a'r holl fanteision eraill y byddech chi'n eu disgwyl o fywyd trefol modern. Mae Casnewydd yn ddinas wedi'i hadnewyddu gan fuddsoddiad, mae Abertawe'n apelio gyda'i maestrefi traeth ac mae dinas Wrecsam yn cynnig adeiladau hanesyddol a hi yw'r porth i ogledd Cymru.

## Yr awyr agored

Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Lle bynnag yr ewch chi, mae natur o'ch cwmpas chi. O fynyddoedd prydferth i ddyffrynnoedd dramatig afonydd, traethau gwag i gopaon clogwyni garw, mae'r dirwedd naturiol yn cynnig cefndir syfrdanol p'un a ydych yn yr hwyliau am antur, yn edrych i ymlacio neu dim ond dilyn eich trefn ddyddiol.

## Bywyd traeth

O arfordir byd-enwog Gŵyr yn y de, i Ben Llŷn hardd ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd, mae Cymru'n gartref i lawer o draethau gorau'r DU - pob un yn hygyrch ar hyd llwybr arfordirol 870 milltir barhaus sy'n datgelu cildraethau, pentiroedd a baeau sy'n gorlifo â bywyd gwyllt.

## Cestyll a chwedlau

Mae cestyll yn diffinio'r dirwedd Gymreig lawn cymaint â'n bryniau a'n cymoedd. Mae 641 i gyd – gosod, stori dylwyth teg a thywyllwch – pob un yn cynnig cipolwg ar y gorffennol a'r cyfle i chi archwilio'r chwedlau o fewn eu waliau. Gan fynd yn ôl hyd yn oed ymhellach, mae yna ddwsinau o safleoedd cynhanesyddol i'w gweld hefyd, gan gynnwys rhai o'r rhyfeddodau Neolithig sydd wedi'u cadw orau yn y DU.



Mae Cymru'n llawn posibiliadau. O antur cyffroes at bleserau teuluol syml, a phopeth yn y canol, nid oes diwedd ar y ffyrdd y gallwch lenwi eich amser hamdden.

Gŵyl y Goedwig, Merthyr Mawr







## Antur ar stepen eich drws

I blant (bach a mawr), Cymru yw'r maes chwarae perffaith. Archwiliwch byllau creigiau perffaith neu ewch i gerdded merlod ar draws ein traethau neu i fyny rhai bryniau tonnog ysgafn. Mae gennym draethau hygyrch – mae llawer yn gyfeillgar i gŵn drwy gydol y flwyddyn – perffaith i roi cymaint o hwyl i chi a'ch teulu ag y gallwch ei gymryd!



## Eich prif ddinas adloniant

Gyda'i siopau dillad crand, ffefrynnau'r stryd fawr ac arcedau Fictoraidd swynol, mae'n hawdd gweld pam mae Caerdydd ar y map fel cyrchfan ar gyfer siopa o safon fyd-eang. Taflwch leoliadau cerddoriaeth fyw hamddenol, glannau hynod fodern, amgueddfeydd sy'n addas i deuluoedd a theatr awyr agored yng nghysgodion y castell i mewn ac ni fyddwch yn gallu aros i ffwrdd.



## Tai bwyta i weddu i bob chwaeth

O fwytai gyda sêr Michelin i farchnadoedd ffermwyr, caffis clyd i dafarndai gwledig arobryn, mae Cymru yn fan lle gallwch fwynhau bwyd blasus pwy bynnag rydych chi gyda nhw, pa bynnag faint o arian rydych am ei wario a beth bynnag rydych chi'n hoffi ei fwyta.



## Hwyl i'r teulu gyda gwahaniaeth

Weithiau, mae plant eisiau rhywbeth ychydig yn wahanol. Os hoffech drefnu diwrnodau gwahanol allan i'r teulu, mae Cymru'n gartref i'r llinell wib gyflymaf yn y byd ynghyd â thrampolîn tanddaearol sydd 180 troedfedd yn yr awyr.

O'R TOP I'R GWAELOD: Bryniau'r Preseli, Mermaid Quay yng Nghaerdydd, Tref Llanymddyfri, Zip Tower yn Aberdâr.

Yng Nghymru, nid gyrfa yn unig rydyn ni'n ei gynnig, rydyn ni'n cynnig ffordd o fyw.

**HyfforddiGweithioByw** | Cymru

hyfforddigweithiobyw.cymru
trainworklive@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

**Trawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach**